# Canllaw cadarnhad y cyflogwr
# City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Toi - Llechi a Theils

Dylai cyflogwr y dysgwr lenwi Ffurflen A a Ffurflen B.

| Fersiwn | Dyddiad | Rheswm dros y newid |
|---|---|---|
| 1.0 | Gorffennaf 2021 | |
| 1.2 | Ebrill 2024 | Tynnu ac adfer gorchuddion to (VR280) made optional (pg 13) |
| 1.3 | Tachwedd 2025 | Diweddarwyd arweiniad ar efelychiad |

©2025 City & Guilds Limited (Rhif Cofrestru 16513878).
Cedwir pob hawl. Mae City & Guilds yn un o nodau masnach City & Guilds Limited.

EAL (Excellence, Achievement & Learning Limited)
Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru rhif 02700780

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Rôl y cyflogwr | 3 |
| Rôl y darparwr hyfforddiant | 3 |
| City & Guilds \| EAL | 4 |
| Gofynion y portffolio tystiolaeth | 4 |
| Efelychiad | 4 |
| Ffurflen A - Gwybodaeth cadarnhad y cyflogwr | 5 |
| Ffurflen B - Gwybodaeth rhestr wirio'r cyflogwr | 5 |
| Canllaw 8 cam i Gyflogwyr a Darparwyr | 6 |
| Ffurflen A - Cadarnhad y cyflogwr | 7 |
| Ffurflen B - Rhestr wirio'r cyflogwr | 9 |

## Cyflwyniad

Mae gan gyflogwyr fwy o rôl yn y gwaith o ddarparu'r gyfres newydd o gymwysterau prentisiaeth yn y sector adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu.

Mae cadarnhad y cyflogwyr yn rhoi arweiniad i gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant ar sut mae'r datganiadau cymhwysedd galwedigaethol a osodwyd gan y diwydiant wedi cael eu bodloni. Drwy gwblhau'r dogfennau tystiolaeth canlynol a'r holl ddulliau asesu angenrheidiol, mae'r dysgwr yn gallu gwneud cais am a chael cerdyn cymhwysedd perthnasol y diwydiant.

Pwrpas cadarnhad y cyflogwr yw rhoi sicrwydd i ganolfannau a chyrff crefft bod y dysgwr yn fedrus yn yr alwedigaeth a'i fod wedi cyrraedd yr ystod lawn o safonau perthnasol. Mae casglu tystiolaeth yn caniatáu i'r darparwr hyfforddiant wneud yn siwr bod 'Ffurflen A Cadarnhad y Cyflogwr' a 'Ffurflen B Rhestr Wirio'r Cyflogwr' yn ddilys. Ar ôl cwblhau hyn, bydd trywydd archwilio i gefnogi'r penderfyniad a fydd wedyn yn caniatáu i'r dysgwr fynd ymlaen i'w asesiad terfynol, y drafodaeth broffesiynol.

## Rôl y cyflogwr

- Byddant yn gweithio gyda phrentisiaid drwy gydol eu prentisiaeth ac yn eu cefnogi.
- Mynychu cyfarfod cychwynnol gyda'r darparwr hyfforddiant i nodi'r ystod o dasgau sydd eu hangen i fodloni datganiadau cymhwysedd y diwydiant, prosiect seiliedig ar waith a chwblhau 'Ffurflen A Cadarnhad y Cyflogwr' a 'Ffurflen B Rhestr Wirio'r Cyflogwr'.
- Cynnig cyfleoedd i'r dysgwr gyflawni'r tasgau a amlinellwyd yn y datganiadau cymhwysedd galwedigaethol a osodwyd gan y diwydiant.
- Cwrdd â darparwyr hyfforddiant i adolygu a chofnodi cynnydd y dysgwr drwy gydol ei brentisiaeth.
- Cefnogi'r dysgwr i gasglu tystiolaeth i gadarnhau hyfedredd yn y tasgau y gwnaeth eu cyflawni.
- Mewn amgylchiadau cyfyngedig gall gweithgareddau efelychiadol ddigwydd mewn amgylchedd gweithdy i gasglu tystiolaeth ond mae'n amodol ar y meini prawf a enwir isod yn cael eu cwblhau yn llawn.
- Cefnogi'r dysgwr i gofnodi ei dystiolaeth, e.e. drwy ddyddiadur neu ddogfen o'r fath.
- Cadarnhau pan fydd y dysgwr wedi bodloni'r safon ofynnol ar gyfer y grefft; ac yn barod i symud ymlaen i'r asesiad terfynol (y drafodaeth broffesiynol), bydd hyn yn cael ei gadarnhau drwy lenwi 'Ffurflen A Cadarnhad y Cyflogwr' a 'Ffurflen B Rhestr Wirio'r Cyflogwyr'.
- Cefnogi'r dysgwr i wneud cais am gerdyn cymhwysedd perthnasol y diwydiant.

## Rôl y darparwr hyfforddiant

- Bydd y darparwr hyfforddiant yn gweithio gyda chyflogwyr i arwain a chefnogi'r dysgwr ar hyd y daith.
- Byddant yn mynychu cyfarfod cychwynnol gyda'r cyflogwr i nodi'r ystod o dasgau sydd eu hangen i fodloni datganiadau cymhwysedd y diwydiant a'r prosiect seiliedig ar waith.
- Sicrhau ansawdd 'Ffurflen A Cadarnhad y Cyflogwr' a 'Ffurflen B Rhestr Wirio'r Cyflogwr' a fydd yn caniatáu i'r dysgwr fynd ymlaen i'w asesiad terfynol, y Drafodaeth broffesiynol.
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n cael ei chasglu gan eu holl brentisiaid yn briodol ac yn gyflawn drwy gynnal a chofnodi samplo sicrhau ansawdd (a fydd yn cael ei gadarnhau drwy lofnodi/dyddio adran 3 o 'Ffurflen A Cadarnhad y Cyflogwr').
- Cefnogi'r cyflogwr a'r dysgwr i gofnodi'r dystiolaeth a fydd yn cyfeirio at y datganiadau cymhwysedd galwedigaethol.

- Byddant yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ddarparwyr hyfforddiant a chyflogwyr drwy weminarau a gwybodaeth ar wefan Sgiliau i Gymru.
- Sicrhau bod gan ddarparwyr hyfforddiant brosesau asesu ac ansawdd addas a chadarn ar waith drwy ein hadran sicrhau ansawdd.
- Rhoi tystysgrifau i brentisiaid ar ôl iddynt lwyddo i gwblhau'r holl elfennau asesu.

## Gofynion tystiolaeth

Ni ddylai'r gwaith o greu tystiolaeth y dysgwr ddechrau oni bai fod y cyflogwr yn fodlon bod y dysgwr yn gweithio'n gyson ar lefel sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y datganiadau cymhwysedd galwedigaethol, neu'n rhagori arnynt. Hynny yw, tybir eu bod wedi cyflawni hyfedredd galwedigaethol. Wrth wneud y penderfyniad hwn, gall y cyflogwr gael cyngor gan ddarparwr hyfforddiant y dysgwr. Yn y pen draw, rhaid i'r penderfyniad cyffredinol gael ei wneud gan y cyflogwr/cyflogwyr.

- Rhaid i brentisiaid gofnodi tystiolaeth yn ystod eu cyfnod ar y rhaglen.
- Rhaid i'r portffolio gynnwys digon o dystiolaeth, wedi'i chasglu yn y gweithle, i ddangos y datganiadau cymhwysedd galwedigaethol.
- Fel arfer, bydd yn cynnwys 15 darn o dystiolaeth, a gallai fod ar fformat dyddiadur neu ddogfen o'r fath.
- Rhaid mapio'r dystiolaeth yn ôl y datganiadau cymhwysedd galwedigaethol
- Gall ffynonellau tystiolaeth gynnwys y canlynol (nid yw hon yn rhestr gyflawn):
    - dogfennau'r gweithle, er enghraifft cardiau gwaith/taflenni gwaith, taflenni gwirio/cofnodion gwirio ansawdd, cofnodion damweiniau, gwirio cyfarpar/cofnodion cynnal a chadw
    - manylebau gyda nodiadau, er enghraifft lluniadau, rhestrau torri, cyfarwyddiadau gwaith
    - ffotograffau gyda nodiadau
    - clipiau fideo (hyd at 10 munud o hyd) gyda stampiau amser clir yn nodi pryd mae darnau allweddol o dystiolaeth yn digwydd.
- Ni ddylai tystiolaeth gynnwys unrhyw ddulliau hunanfyfyrio neu hunanasesu
- Dylai unrhyw gyfraniadau gan y cyflogwr ganolbwyntio ar arsylwi uniongyrchol o hyfedredd (er enghraifft datganiadau gan dystion) yn hytrach na barn.
- Rhaid i'r dystiolaeth gael ei dilysu gan gyflogwr ac wedi ei chasglu'n ddiweddar. Dylai fod digon o dystiolaeth i ddangos bod y datganiadau perfformiad ar y safle wedi eu bodloni.
- Rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir fod yn ddilys ac yn briodoladwy i'r dysgwr; rhaid i'r dystiolaeth ddogfennol fod yn gyflawn. Mae llofnod y cyflogwr ar y ddogfen gadarnhau yn cadarnhau bod hyn yn wir.

## Efelychiad

Mae defnydd o efelychiad dim ond yn cael ei ganiatáu lle nodir yn y **rhestr wirio datganiad cymhwysedd**. Mae'r unedau a'r meini prawf asesu lle caniateir efelychiad wedi eu dangos mewn llythrennau ***italig trwm***.

Rhaid i holl dystiolaeth efelychiadol fod:

- yn ddilys ac wedi ei chasglu yn ddiweddar.
- wedi'i dogfennu'n ddigonol i ddangos bod datganiadau cymhwysedd galwedigaethol wedi eu bodloni.

Lle caniateir, gall efelychiad ddigwydd mewn **amgylchedd gweithdy**. Rhaid i'r gweithgaredd efelychiadol a'r lleoliad, cymaint â phosibl, adlewyrchu'r amodau a geir ar y safle, gan gynnwys:

- PPE (cyfarpar amddiffynnol personol)
- goruchwyliaeth
- protocolau diogelwch
- amserlenni realistig; fel y disgwylir yn rhesymol yn y gwaith
- safonau ansawdd

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at y Strategaeth Asesu Gyfunol ar gyfer Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

## Ffurflen A  Cadarnhad y Cyflogwr

Mae hon yn ffurflen generig sydd wedi'i rhannu'n dair adran. Mae hi wedi'i gosod mewn cyd-destun ar gyfer pob crefft yn y sectorau adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu. Cyfrifoldeb y cyflogwr yw llenwi'r ffurflen hon ar y cyd â'r darparwr hyfforddiant a'r dysgwr.

### Adran 1

- Yn cael ei llenwi ar ddechrau taith y dysgwr yn dilyn cyfarfod cychwynnol gyda'r darparwr hyfforddiant.
- Nodi'r ystod o dasgau sydd eu hangen i fodloni datganiadau cymhwysedd y diwydiant a phrosiect seiliedig ar waith.

### Adran 2

- Yn nodi penawdau uned y datganiadau cymhwysedd galwedigaethol y bydd yn rhaid i'r dysgwr eu cwblhau.
- Bydd y cyflogwr yn ticio ac yn rhoi llythrennau cyntaf ei enw wrth yr uned cymhwysedd galwedigaethol y bydd dysgwr yn ei chyflawni o dan ei arweiniad.
- Mae darpariaeth i fwy nag un cyflogwr lenwi'r adran hon. Pwrpas hyn yw pan fydd dysgwr yn cael ei gyflogi drwy'r cynllun prentisiaeth ar y cyd a bod mwy nag un cyflogwr yn rhan o'r broses.
- Pan fydd mwy nag un cyflogwr yn ymwneud â'r un dysgwr, bydd yr adran hon yn cael ei llenwi gan y cyflogwr sy'n cadarnhau bod y dasg derfynol ar Ffurflen B wedi cael ei chyflawni.
- Pan fydd efelychiad yn digwydd ac yn dderbyniol ar gyfer uned(au), bydd yr asesydd alwedigaethol gymwys yn llenwi'r adran hon i gadarnhau bod y gweithgareddau yn Ffurflen B wedi cael eu cwblhau.

### Adran 3

- Mae'r adran hon i'w llenwi pan fydd cyflogwr wedi newid.
- Bydd yr adran hon yn cael ei llenwi gan bob un o'r cyflogwyr sy'n ymwneud â'r broses o gefnogi ac arwain y dysgwr, yn ogystal â'r darparwr hyfforddiant, y swyddog sicrhau ansawdd mewnol a'r dysgwr.
- Pan fydd efelychiad wedi ei gynnal gyda chyflogwr yn bresennol, ac yn dderbyniol, bydd yr asesydd sy'n gymwys yn alwedigaethol yn llenwi'r adran hon.
- Ar ôl ei llenwi, gall y dysgwr fynd ymlaen i'w asesiad terfynol (y drafodaeth broffesiynol).

## Adran B  Rhestr Wirio Cyflogwr

Mae hon yn ffurflen generig sydd wedi'i gosod mewn cyd-destun ar gyfer pob crefft yn y sectorau adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu. Mae log y datganiad cymhwysedd galwedigaethol yn nodi'r unedau cymhwysedd galwedigaethol y bydd yn rhaid i brentis eu cwblhau yn eu crefft. Cyfrifoldeb y cyflogwr/cyflogwyr yw llenwi'r ffurflen B hon ar y cyd â'r darparwr hyfforddiant a'r dysgwr.

- Mae pob uned yn cynnwys teitl, tasg a darpariaeth i'r cyflogwr/cyflogwyr gadarnhau bod y dysgwr yn hyfedr drwy roi tic yn y blwch cyflogwr cyfatebol.
- Mae gan bob uned datganiad cymhwysedd galwedigaethol ddarpariaeth ar gyfer hyd at bedwar cyflogwr i gadarnhau bod y dysgwr yn hyfedr ym mhob maen prawf.
- Pan fydd gan brentis fwy nag un cyflogwr, bydd y cyflogwr sy'n llofnodi fel cyflogwr rhif un yn parhau i fod yn gyflogwr rhif un wrth lenwi dogfennau. Bydd cyflogwyr ychwanegol yn llenwi'r adrannau cyfatebol ar gyfer cyflogwyr ychwanegol.
- Mae cyflogwyr yn gwneud penderfyniadau bod y dysgwr, yn eu barn nhw, yn gallu cwblhau'r dasg i safon foddhaol yn y diwydiant mewn modd amserol a diogel.
- Gall gwahanol gyflogwyr gadarnhau bod y dysgwr yn hyfedr ar yr un dasg sy'n dderbyniol.
- Pan fydd efelychiad yn dderbyniol ar gyfer uned(au), bydd yr asesydd sy'n alwedigaethol gymwys yn llenwi'r adran hon i gadarnhau bod y dysgwr yn gallu cwblhau'r gweithgaredd i safon sy'n foddhaol gan y diwydiant , mewn ffordd sy'n ddiogel ac yn brydlon.
- Bydd y prentis yn casglu ac yn cadw tystiolaeth i ddangos sut mae wedi cyflawni meini prawf y dasg yn unol â'r datganiad cymhwysedd galwedigaethol.

# Canllaw 8 cam i Gyflogwyr a Darparwyr

Mae'r canllaw 8 cam yma yn rhoi golwg gyffredinol i gyflogwyr a darparwyr o'r gefnogaeth y bydd angen ei rhoi i ddysgwyr er mwyn cyflawni cyfres prentisiaeth Lefel 3 newydd o gymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu yng Nghymru.

## Cam 1

Dysgwr yn sicrhau cyflogaeth ac yn dechrau ei daith dysgu.

## Cam 2

Darparwyr yn cwrdd â'r cyflogwyr i nodi'r ystod o dasgau sydd eu hangen i fodloni datganiadau cymhwysedd y diwydiant a phrosiect seiliedig ar waith.

## Cam 3

Datblygu a chytuno ar archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer proses cadarnhad y cyflogwr.

## Cam 4

Adolygiadau cyfnodol o gynnydd y dysgwr a gwiriadau ansawdd o dystiolaeth gan y diwydiant.

## Cam 5

Arsylwi ar brosiect diwydiant ymarferol.

## Cam 6

Cyfarfod adolygu terfynol gyda'r cyflogwr a'r dysgwr. Y cyflogwr yn cwblhau'r ddogfen cadarnhad, y dysgwr yn cwblhau'r dystiolaeth wedi'u dogfennu.

## Cam 7

Bydd y dysgwr yn symud ymlaen i'r asesiad terfynol. (Trafodaeth broffesiynol.)

## Cam 8

Ar ôl llwyddo i gwblhau pob cydran, bydd City & Guilds yn rhoi tystysgrif a bydd y dysgwr yn gallu gwneud cais am gerdyn cymhwysedd y diwydiant.

## Ffurflen A Cadarnhad y cyflogwr

Mae cadarnhad y cyflogwr yn cadarnhau bod y dysgwr yn fedrus yn yr alwedigaeth a'i fod wedi bodloni'r holl ddatganiadau cymhwysedd galwedigaethol a'i fod nawr yn gallu parhau â'i asesiad terfynol, y drafodaeth broffesiynol.

- Cyfrifoldeb y cyflogwr, gyda chefnogaeth y darparwr hyfforddiant, yw'r ddogfen gadarnhad.
- Y sicrhawr ansawdd mewnol fydd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y broses hon.
- Bydd ycorff dyfarnu yn gwirio'r broses fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd allanol.

### Adran 1: Manylion y dysgwr

| | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr | |
| Rhif cofrestru'r dysgwr | |
| Teitl a rhif y cymhwyster | |
| Enw'r ganolfan | |

### Adran 2: Datganiadau cymhwysedd galwedigaethol

| Datganiadau cymhwysedd galwedigaethol wedi'u cyflawni ar gyfer | ✓ | Llythrennau cyntaf enw'r cyflogwr |
|---|---|---|
| Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle VR641 | ☐ | |
| Cydymffurfio ag arferion cynhyrchiol VR642 | ☐ | |
| Symud, trin a storio adnoddau VR643 | ☐ | |
| Gosod is-haen, estyll, a chydrannau toi VR272 | ☐ | |
| Gosod gwaith plwm wedi'i ffurfio'n barod ar doeau VR273 | ☐ | |
| Gosod teils to lap sengl i fesur amrywiol VR274 | ☐ | |
| Gosod teils to plaen VR275 | ☐ | |
| Gosod llechi naturiol o faint rheolaidd ar do safonol VR276 | ☐ | |
| Agweddau ac ymddygiad | ☐ | |
| Tystiolaeth wedi ei dogfennu yn gyflawn | ☐ | |
| Unedau dewisol: Tynnu ac adfer gorchuddion to VR280 | ☐ | |
| Unedau dewisol: Newid gorchudd to treftadaeth VR501 | ☐ | |
| Unedau dewisol: Atgyweirio a chynnal a chadw gorchuddion to treftadaeth VR502 | ☐ | |

## Ffurflen A Parhad

Ar ôl ei gwblhau, mae modd cyflwyno’r dyagwr ar gyfer ei asesiad terfynol, sef y drafodaeth broffesiynol.

### Adran 3: Cadarnhad y cyflogwr

| Rôl | Enw’r Cwmni | Enw’r gweithiwr | Swydd yn y cwmni | Llofnod (mae modd teipio hwn) | Llythrennau cyntaf enw | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogwr 1 | | | | | | |
| Cyflogwr 2 | | | | | | |
| Cyflogwr 3 | | | | | | |
| Cyflogwr 4 | | | | | | |
| Sicrhawr Ansawdd Mewnol | | | | | | |

# Ffurflen B Rhestr wirio'r cyflogwr

## Rhestr wirio datganiadau cymhwysedd galwedigaethol: Gwaith Toi - Llechi a Theils

Enw'r dysgwr

| | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cydymffurfio ag Iechyd, Diogelwch a Lles Cyffredinol yn y Gweithle. (VR641) | E1 | E2 | E3 | E4 |
| Arddangos ymddygiad personol sy'n dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle yng nghyd-destun cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol: | | | | |
| Ystyried pobl eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dehongli'r cyfarwyddiadau penodol i gadw systemau gweithio ddiogel | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfrannu at drafodaethau (cynnig a rhoi adborth) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cynnal arferion gwaith o safon | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfrannu at gynnal cyfleusterau lles yn y gweithle | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Storio a defnyddio cyfarpar a ddarperir i gadw pobl yn ddiogel | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cael gwared â gwastraff a/neu ddefnyddiau traul | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn unol â gofynion y sefydliad o ran: | | | | |
| Delio â damweiniau ac argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r math o waith sy'n cael ei wneud a'r amgylchedd gwaith | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dulliau o dderbyn neu gael gafael ar wybodaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cofnodi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Stopio gweithio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwagio adeiladau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Risgiau tân a gweithdrefnau gadael diogel | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ymgynghori ac adborth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen B Parhad

| Cydymffurfio ag Arferion Gwaith Cynhyrchiol. (VR642) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| Mae'n rhaid i'r dysgwr allu: | | | | |
| Cyfathrebu â rheolwyr llinell, cydweithwyr neu gwsmeriaid i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud mewn modd cynhyrchiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Parchu anghenion pobl eraill wrth gyfathrebu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dehongli gweithdrefnau a defnyddio adnoddau i gynllunio trefn y gwaith, fel ei fod yn cael ei gwblhau mewn modd cynhyrchiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Llenwi dogfennau yn ôl gofynion y sefydliad | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gweithio mewn modd cynhyrchiol â rheolwyr llinell, cydweithwyr, cwsmeriaid neu bobl eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| Symud, Trin neu Storio Adnoddau (VR643) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| Mae'n rhaid i'r dysgwr allu: | | | | |
| Defnyddio sgiliau i symud, lleoli, storio, diogelu a/neu ddefnyddio cymhorthion codi a thechnegau codi cinetig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol i fodloni gwybodaeth cynnyrch a gofynion y sefydliad sy'n ymwneud ag o leiaf dri o'r canlynol: | | | | |
| Deunydd dalen | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Deunydd rhydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Deunydd wedi'i fagio neu wedi'i lapio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Deunydd bregus | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Offer a chyfarpar | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cydrannau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Hylifau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen B Parhad

| Gosod is-haen, estyll a chydrannau toi (VR272) | Cyflogwr E1 | E2 | E3 | E4 |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r Töwr Llechi a Theils allu:** | | | | |
| Dangos y sgiliau gwaith i fesur, torri, marcio allan, lleoli a gosod | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i wneud y canlynol:** | | | | |
| Gosod estyll stribed allan i'r pwyntiau datwm a mesur | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Gosod deunyddiau a chydrannau ar fondoeau, ymylon, ymylon main, cribau, cafnau, ategweithiau, agoriadau, treiddiadau, mannau cyffredinol ac arwynebau fertigol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir ar gyfer y canlynol:** | | | | |
| Is-haenau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Estyll stribed | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Estyll croes | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Haenau gwaelodol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Systemau awyru bondoeau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Deunyddiau cynnal is-haen | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Atalwyr tân | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| Gosod gwaith plwm sydd wedi cael ei ffurfio ymlaen llaw ar doeau (VR273) | Cyflogwr E1 | E2 | E3 | E4 |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r Töwr Llechi a Theils allu: | | | | |
| Dangos y sgiliau gwaith i dorri, ffitio, gosod, sicrhau, gwisgo, pwyntio a gorffen | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i wneud y canlynol: gosod gwaith plwm sydd wedi'i ffurfio ymlaen llaw a/neu berchnogol ar orchuddion to lap sengl a dwbl yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddir mewn perthynas â'r canlynol: | | | | |
| Simneiau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ategweithiau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Pibellau gwastraff a/neu awyru | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfrwyau cyffyrdd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cafnau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Agoriadau (goleuadau, ffenestri to) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| Gosod teils to lap sengl i fesur amrywiol (VR274) | Cyflogwr E1 | E2 | E3 | E4 |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r Töwr Llechi a Theils allu: | | | | |
| Dangos y sgiliau gwaith i fesur, gosod allan, marcio, torri, gosod, cymysgu, lleoli, diogelu a gorffen | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i wneud y canlynol: gosod teils to plaen a ffitiadau, gosodiadau a chydrannau cysylltiedig yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir, gan ddefnyddio deunyddiau newydd a/neu wedi'u hadfer ar gyfer toeau gyda'r canlynol: | | | | |
| Mannau cyffredin | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bondoeau a chwrs uchaf | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ategweithiau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Agoriadau (goleuadau, ffenestri to) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ymylon, cribau, ymylon main a chafnau wedi eu gosod â dulliau sych a/neu wlyb | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen B Parhad

| Gosod gorchudd to teils plaen (VR275) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| Rhaid i'r Töwr Llechi a Theils allu: | | | | |
| Dangos y sgiliau gwaith i fesur, gosod allan, marcio, torri, gosod, cymysgu, lleoli, diogelu a gorffen | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i wneud y canlynol: gosod teils to plaen a ffitiadau, gosodiadau a chydrannau cysylltiedig yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith gan ddefnyddio deunyddiau newydd a/neu a adferwyd ar gyfer toeau gyda'r canlynol: | | | | |
| Mannau cyffredin | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bondoeau a chwrs uchaf | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ategweithiau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Agoriadau (goleuadau, ffenestri to) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ymylon, cribau, ymylon main a chafnau wedi eu gosod â dulliau sych a/neu wlyb | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| Gosod llechi to naturiol maint rheolaidd yn unol â manylion to safonol (VR276) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| Rhaid i'r Töwr Llechi a Theils allu: | | | | |
| Dangos y sgiliau gwaith i fesur, gosod allan, marcio, graddio, tyllu, torri, gosod, cymysgu, sicrhau a gorffen | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer i wneud y canlynol: gosod llechi to naturiol o faint cyffredin ar estyll a/neu fyrddau a ffitiadau cysylltiedig, gosodiadau a chydrannau yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir, gan ddefnyddio deunyddiau newydd a/neu wedi'u hadfer ar gyfer toeau gyda'r canlynol: | | | | |
| Mannau cyffredin | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bondoeau a chwrs uchaf | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ategweithiau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Agoriadau (goleuadau, ffenestri to) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ymylon, cribau, ymylon main a chafnau wedi eu gosod â dulliau sych a/neu wlyb | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen B  Parhad

Uned ddewisol yw hon sy'n cynnwys sgiliau y gallai cyflogwr ddymuno i'w weithiwr eu cael y tu hwnt i'r sgiliau galwedigaethol gorfodol.

| Tynnu ac adfer gorchuddion to (VR280) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| Rhaid i'r Töwr Llechi a Theils allu: | | | | |
| Dangos sgiliau gweithio i dynnu, adfer, tynnu hoelion, ail-dyllu, ail-feintio, glanhau a threfnu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i wneud y canlynol: tynnu, adfer a/neu waredu deunyddiau hindreuliad a chydrannau ategol yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddir, ynghyd ag o leiaf ddau o'r canlynol: | | | | |
| Llechi naturiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Teils plaen | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Teils lap sengl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Llechi cerrig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Paratoi arwynebau a deunyddiau'n barod i ail-doi yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen B Parhad

Uned ddewisol yw hon sy'n cynnwys sgiliau y gallai cyflogwr ddymuno i'w weithiwr eu cael y tu hwnt i'r sgiliau galwedigaethol gorfodol.

| Newid gorchuddion to treftadaeth (VR501) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| Rhaid i'r Töwr Llechi a Theils Treftadaeth allu: | | | | |
| Tynnu, glanhau, pentyrru, storio, paratoi, mesur, marcio allan, gosod, gorffen, lleoli a sicrhau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Tynnu gorchuddion to presennol ac ail-doi'r to neu'r drychiadau llawn yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir mewn perthynas ag o leiaf ddau o'r canlynol: | | | | |
| Toeau traddodiadol a dulliau toi sy'n perthyn i ardaloedd daearyddol neilltuol (er enghraifft pegiau Caint, llechi cerrig Swydd Efrog). | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Addoldai | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Plastai | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Adeiladau cyhoeddus | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Adeiladau hanesyddol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cestyll a/neu adeiladau caerog | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ardaloedd cadwraeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Adeiladau rhestredig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Newid gorchuddion to yn y mannau canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir: | | | | |
| Ymylon | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bondoau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cribau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ymylon main | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cafnau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Agoriadau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfosodiadau top ac ochr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mannau cyffredin | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen B  Parhad

Uned ddewisol yw hon sy'n cynnwys sgiliau y gallai cyflogwr ddymuno i'w weithiwr eu cael y tu hwnt i'r sgiliau galwedigaethol gorfodol.

| | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| Atgyweirio a chynnal a chadw gorchuddion to treftadaeth (VR502) | E1 | E2 | E3 | E4 |
| Rhaid i'r Töwr Llechi a Theils Treftadaeth allu: | | | | |
| Tynnu, glanhau, pentyrru, storio, paratoi, mesur, marcio allan, gosod, gorffen, lleoli a sicrhau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Trwsio gorchuddion to presennol a chynnal a chadw toeau a drychiadau yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir mewn perthynas ag o leiaf ddau o'r canlynol: | | | | |
| Toeau traddodiadol a dulliau toi sy'n perthyn i ardaloedd daearyddol neilltuol (er enghraifft pegiau Caint, llechi cerrig Swydd Efrog). | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Addoldai | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Plastai | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Adeiladau cyhoeddus | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Adeiladau hanesyddol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cestyll a/neu adeiladau caerog | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ardaloedd cadwraeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Adeiladau rhestredig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Atgyweirio a chynnal a chadw toeau yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir mewn tair o'r ffyrdd canlynol o leiaf: | | | | |
| Newid llechi naturiol/llechi cerrig a/neu deils | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Newid estyll | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Newid gorchuddion ymyl fain a chrib | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Newid gwaith plwm | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Clirio a thrin rhwystrau mewn gwteri, allfeydd a mannau draenio eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ailosod a phwyntio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Pwyntio o dan lechi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## Ffurflen B Parhad

| Agweddau ac Ymddygiad | Cyflogwr E1 | E2 | E3 | E4 |
|---|---|---|---|---|
| Wrth gyflawni ei rôl o ddydd i ddydd, dangosodd y dysgwr yr Agweddau a'r Ymddygiad Personol canlynol: | | | | |
| Defnyddio cefnogaeth a barn broffesiynol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bod yn bendant a herio ymddygiad/gweithgareddau anniogel | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Hyderus a dangos dyfeisgarwch drwy nodi meysydd i'w gwella ac awgrymu a/neu ddatblygu atebion arloesol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Adnabod a rheoli risg iddo'i hun ac eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cadw'r ardal waith yn lân a thaclus | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Prydlon a rheoli ei amser ei hun yn effeithiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Meddwl yn rhesymegol ac yn unol â gofynion y sefyllfa gan resymu'n glir ac yn ddilys wrth wneud penderfyniadau i ymgymryd â'r cyfarwyddiadau gwaith | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dibynadwy a gweithio'n effeithiol ar ei ben ei hun ac mewn tîm | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gweithio'n unol â gofynion ansawdd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gweithio mewn modd cynhyrchiol a dangos parch (o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwisgo'n briodol a gweithio'n ddiogel a sicrhau diogelwch pobl eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gweithio o fewn ei lefel cymhwysedd ei hun a gwybod pryd i ofyn am gyngor gan eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| Cyflogwr | Enw'r cwmni | Enw'r gweithiwr | Llythrennau cyntaf enw'r gweithiwr | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogwr 1 | | | | |
| Cyflogwr 2 | | | | |
| Cyflogwr 3 | | | | |
| Cyflogwr 4 | | | | |

## Cysylltu â ni


### City & Guilds
E-bost: skillsforwales.customer@cityandguilds.com

### EAL
E-bost: skillsforwales.customer@eal.org.uk
Ffôn: 01924 930800
Llinellau ar agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 08.00 i 18.00 GMT


### Am City & Guilds | EAL
Mae City & Guilds ac EAL yn ddau gorff dyfarnu sydd wedi dod at ei gilydd i gydweithio ar ddatblygu cyfres o gymwysterau adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu i Gymru.

Mae gennym dros 140 mlynedd o brofiad o ddatblygu cymwysterau ac asesiadau yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Mae City & Guilds ac EAL wedi meithrin perthynas wych o gydweithio, felly mae hon yn bartneriaeth go iawn sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r sector i fodloni'r cyfleoedd sydd gan y dyfodol i'w gynnig.

Rydym yn credu'n gryf mewn grymuso pobl gyda chyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Ein nod gyda'r gyfres newydd hon o gymwysterau yw helpu pobl i gael swydd, datblygu o fewn y swydd a mynd ymhellach.


Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir wrth fynd i'r wasg. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau City & Guilds | EAL yn cael eu datblygu a'u gwella'n barhaus, ac maent yn cadw'r hawl i newid cynnyrch a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds | EAL dderbyn atebolrwydd am golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

©2025 City & Guilds Limited (Rhif Cofrestru 16513878). Cedwir pob hawl. Mae City & Guilds yn un o nodau masnach City & Guilds Limited.

EAL (Excellence, Achievement & Learning Limited) Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru rhif 02700780
Swyddfa gofrestredig: EAL, Unit 2, The Orient Centre, Greycaine Road, Watford, Herts, WD24 7GP


skillsforwales.wales/cy